**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Rebecca Evans AC
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Llywodraeth Cymru

1 Mawrth 2019

Annwyl Rebecca

**Rheoliadau Maeth (Diwygio etc.) (Ymadael â’r UE) 2019**

Yn ystod ei gyfarfod ar 18 Chwefror 2019, bu'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn trafod y datganiad ysgrifenedig diwygiedig a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru o dan Reol Sefydlog 30C ar 8 Chwefror 2019 mewn perthynas â'r rheoliadau uchod.

Wrth drafod y datganiad ysgrifenedig diwygiedig, nododd y Pwyllgor yn benodol y wybodaeth a oedd ymwneud â'r effaith y gallai'r rheoliadau ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru. Mae'r datganiad ysgrifenedig yn cynnwys y paragraffau a ganlyn:

> "Mae'r Rheoliadau yn cynnwys darpariaeth sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru yn ddilyffethair. Mae hefyd yn cynnwys darpariaeth lle gallai Gweinidogion Cymru ddarparu cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru ar eu rhan.
>
> Byddai swyddogaethau a drosglwyddir â chydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol yn gyfystyr â swyddogaethau un o Weinidogion y Goron at ddibenion Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n bosibl, felly, fod hynny'n ystyriaeth berthnasol yng nghyd-destun cymhwysedd y Cynulliad i ddeddfu yn y meysydd hyn yn y dyfodol."

Rydym o'r farn nad yw'r pwerau a roddir i Weinidogion Cymru yn rhinwedd y Rheoliadau yn bwerau cydamserol, ac nid ydynt yn cael eu trosglwyddo fel y'u disgrifir yn y datganiad ysgrifenedig. Yn hytrach, ymddengys bod y pwerau'n cael eu harfer gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar ran Gweinidogion Cymru, a chyda'u cydsyniad.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

Yn ogystal, ymddengys nad yw'r pwerau dan sylw yn dod o fewn y meini prawf ym mharagraff 11 o Atodlen 7B i Ddeddf 2006, a fyddai'n cyfyngu ar allu Gweinidogion Cymru i ddiddymu'r cydsyniad ar ryw ddyddiad yn y dyfodol, wedi iddo gael ei roi. Felly, nid yw'n yn glir sut y gallai cymhwysedd y Cynulliad gael ei gyfyngu.

Os yw Llywodraeth Cymru o'r farn y gallai'r Rheoliadau hyn effeithio ar gymhwysedd y Cynulliad yn y dyfodol, rydym yn awgrymu'n barchus ei bod yn egluro'n glir pa rannau o baragraff 11 o Atodlen 7B i Ddeddf 2006 sy'n berthnasol.

Rydym eisoes wedi nodi, yn ein llythyr at y Prif Weinidog dyddiedig 21 Chwefror 2019, ein pryderon ehangach ynghylch y cyfyngiadau anfwriadol ar gymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol a gaiff eu creu gan bwerau a roddwyd drwy reoliadau yn ymwneud ag ymadael â'r UE a deddfwriaeth arall.

Yn y cyfamser, byddwn yn ddiolchgar pe gallem gael eglurder ynghylch y materion penodol yr ydym yn eu codi mewn perthynas â'r rheoliadau hyn, a hynny erbyn 11 Mawrth 2019. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Vaughan Gething AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn gywir

**Mick Antoniw**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu’n Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English